# Y Theatr Gerddorol

**Perfformiad o ‘*Dy garu o bell*’ gan Elain Llwyd**

1. Beth yw stori’r gân ‘*Dy garu o bell*’?

2. Ydy hi’n gân hapus neu’n gân drist?

3. Esboniwch y rheswm dros eich ateb.

4. Sut mae Elain yn canu rhan gyntaf y gân?

5. Pam bod hi’n ei chanu fel hyn?

6. Tanlinellwch y mannau ble mae Elain yn pwysleisio geiriau

*‘Dwi’ wedi byw*

*‘dwi’ wedi gweld y byd*

*Gwasgu oes i ddyddiau byth gofiadwy*

*Gweled poen a theimlo angerdd loes*

*Heb deimlo gwres y freuddwyd anweladwy*

7. Sut mae hi yn defnyddio ei hwyneb?

8. Pa eiriau sy'n cael eu pwysleisio a pham?

9. Sut mae llais Elain yn newid yn ystod ail rhan y gân?

10. Pam bod ei llais yn newid?

11. Nodwch unrhyw symudiadau gan Elain hyd yn hyn.

12. Pam bod pwyslais ar y geiriau yma?

*Tyrd ataf fi*

*Fe gei di'r byd i gyd*

*Yn fy llaw cei brofi nwyd fy nghariad*

*Gwir baradwys fydd ein bywyd ni*

*Heb wybod beth yw angen na dymuniad*

13. Sut mae Elain yn agor y gân allan?

14. Dyma'r corws isod. Sut mae Elain yn adeiladu sain yn fan hyn?

*Ond ynot ti fe welais obaith*

*A chyfle nawr am fywyd gwell*

*Ac er nad wyt ti'n sylweddoli*

*Fe gerais di o bell.*

15. Pa emosiwn mae'r darn yn cyfleu?

16. Sut mae'r perfformiad yn newid yn ystod y darn nesaf?

    Meddyliwch am eirio, traw llais, symudiadau a mynegiant wyneb.

*Mi brofais ddoe*

*Heb weld yfory'n dod*

*Oerni 'myd a dyddiau du anobaith*

*Gweld blynyddoedd unig o fy mlaen*

*Ond heno caf ymdoddi yn dy afiaith*

*Ond ynot ti fe welais obaith*

*A chyfle nawr am fywyd gwell*

*Ac er nad wyt ti'n sylweddoli*

*Fe gerais di o bell*

*Ond ynot ti fe welais obaith*

*A chyfle nawr am fywyd gwell*

*Ac er nad wyt ti'n sylweddoli*

*Fe gerais di o bell*

17. Sut mae Elain yn creu uchafbwynt?

18. Sut mae'r gân yn gorffen?

19. Pam fod y gân yn gorffen fel hyn?

20. Yn y ffram isod crëwch graff emosiynol o'r gân o'r dechrau i'r diwedd.

Dechrau'r gân — Diwedd y gân

21. Beth mae hyn yn ei ddangos am y perfformiad o'r gân?

# Tasg

Ewch ar y we i chwilio am unigolyn yn perfformio cân yn arddull theatr gerdd.

Argraffwch y geiriau ac yna dadansoddwch berfformiad yr actor gan ysgrifennu eich syniadau o gwmpas y geiriau.

Canolbwyntiwch ar :

- y defnydd o eiriau
- symudiadau
- mynegiant wyneb.

Sut maen nhw'n chwarae gyda'r gân er mwyn creu effaith?